# Cenn@d

MEHEFIN 14 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 120

## Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant – yng Nghymru

**Yn *Cenn@d*, rhif 119 (7 Mehefin), cafwyd adroddiad gan Aled Davies yn rhannu o'i brofiadau ar ôl mynychu cynhadledd Ewropeaidd ar waith plant yn Hwngari yn ddiweddar. Yn yr ysgrif ddilynol hon mae'n rhannu ei argraffiadau o ran perthnasedd hynny i'n sefyllfa ni yma yng Nghymru.**



Aled Davies a'r criw fu'n gyfrifol am drefnu'r gynhadledd yn Hwngari

Yn ystod y mis a aeth heibio rwyf wedi cael cyfle i ymweld â phedwar digwyddiad gwahanol, a hynny yn rhinwedd fy ngwaith gyda'r Cyngor Ysgolion Sul. Mae'r pedwar ymweliad hyn yn eu tro wedi fy helpu i ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu o ran rhai o'r heriau sy'n ein hwynebu, a sut y gallwn symud ymlaen gyda'n gweinidogaeth a chenhadaeth ar gyfer eglwysi Cymru. Roedd hyn yn amserol iawn o ran gwaith cyfredol y Cyngor Ysgolion Sul, gan fod ein cynllun gwaith ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn y broses o gael ei ailddiffinio i gyfarfod ag anghenion ein cyfnod. Wedi tair blynedd hynod heriol i waith plant yn ein heglwysi, daeth yn amser i feddwl o ddifri sut mae modd cyrraedd y 95% o blant nad ydyn nhw bellach yn rhan o fywyd yr eglwys mewn unrhyw ffordd. Ar yr un pryd mae angen i ni gofio bod yna blant yn dal yn ein mysg, a bod angen meddwl sut y gallwn eu helpu i ddod yn ddilynwyr a disgyblion i Iesu trwy'n cynlluniau dysgu a'r modd y gallwn eu cynnwys yn ein haddoliad.

Bu disgwyliad gan lawer y byddai pethau'n raddol yn mynd yn ôl i 'fel roedden nhw cyn Covid', ond y realiti mewn llawer o lefydd yw nad yw hynny wedi digwydd, a bellach mae angen meddwl am ffyrdd newydd a gwahanol. Rhaid derbyn bod patrymau'r Sul wedi newid, ac arferion teuluol wedi newid, a bod angen modelau neu gynlluniau gwahanol wedi'u teilwra ar gyfer sefyllfa pob un gymuned, boed ddinesig neu wledig. Mae ffactorau fel nifer ac oed gwirfoddolwyr, adeiladau ac adnoddau i gyd yn effeithio ar yr hyn y mae modd i ni ei ddarparu yn lleol.

Mewn llawer man ni fydd cynnal cyfarfod wythnosol bellach yn bosib nac yn ymarferol, ac efallai na all un eglwys gynnal y gweithgarwch fel mewn cyfnod a fu. Mae'n bosib mai un cyfarfod misol, rhyngenwadol, efallai yn yr ysgol ar nos Iau, fydd y ffordd ymlaen. Y gofid ar hyn o bryd yw clywed cynifer yn adrodd yn ôl gan ddweud, 'Does 'na ddim plant acw erbyn hyn'. Y gwir plaen yw bod y plant yn dal yno yn ein cymunedau, ond nad yw'r eglwysi'n gallu darparu cyfleon ar eu cyfer.

Bydd llawer o arweinwyr a chynulleidfaoedd, wrth fedyddio plant, yn addo gerbron Duw eu bod yn cynnig 'hyfforddiant yn yr efengyl i'r plentyn hwn a'r holl blant eraill yn ein mysg', ond eto'n torri'r adduned hwnnw wrth i'r gwasanaeth bedydd ddod i'w derfyn. Tydi parhau i fedyddio, heb gynnig unrhyw gefnogaeth i'r plant a'u teuluoedd, ddim yn ddigon da! Cofiaf stori ar wefan Cymru Fyw y BBC bedair mlynedd yn ôl, lle roedd y Parch. D. Ben Rees yn cwestiynu a fyddai yna eglwysi Cymraeg yn dal yn agored yn 2050. Mae'r hyn sydd wedi digwydd ers hynny, dros gyfnod byr o bedair blynedd, yn frawychus, ac erbyn hyn mae'n gwbl gwbl allweddol ein bod yn ymrwymo i wneud ailgysylltu â phlant a theuluoedd yn flaenoriaeth uwchlaw pob dim arall.

Wrth baratoi ar gyfer y gynhadledd yn Hwngari, yr un neges oedd cynrychiolwyr y gwledydd, sef bod yna argyfwng ym maes gwaith plant, a bod angen aildanio'r gwaith ar fyrder. Ond mae'n waith heriol ar y gorau, ac ar adegau yn unig iawn – a dyna werth cydgyfarfod ag eraill bob amser, i ysbrydoli a chalonogi. A dyna'r hyn a brofais innau dros y mis a aeth heibio.

Aeth yr ymweliad cyntaf â fi i'r Ffair Lyfrau Ryngwladol yn Llundain, ac roedd yn gyffrous gweld y miloedd o bobl sy'n rhan o'r diwydiant cyhoeddi yn cyfarfod i drafod cytundebau, cyfieithu ac addasu cyfrolau o bob math. Roedd gan Gyhoeddi Cymru stondin yno, yn atgoffa'r diwydiant



Nifer o gyhoeddwyr Cymreig yn cyfarfod ar stondin Cyhoeddi Cymru yn y Ffair Lyfrau yn Llundain

bod yna gyhoeddi byrlymus yng Nghymru, yn gyhoeddwyr ac argraffwyr, a'n bod yn rhan o ddiwydiant byd-eang enfawr. Yn yr un ffordd, roedd yn braf i mi gael cyfarfod â'r cyhoeddwyr Cristnogol, a gweld ehangder a chreadigrwydd y dewisiadau oedd ar gael.

Wedi dau ddiwrnod o grwydro llawr y ffair, roedd nifer o gyfrolau wedi denu fy sylw. Yn eu plith roedd llyfr o storïau Beiblaidd yn cynnwys sgrin LCD ar ffurf llechen, â *stylus* pwrpasol, fel bod y plant yn gallu tynnu lluniau arno a'u cadw fel cofnod. Hwn fydd y llyfr cyntaf yn y Gymraeg efo sgrin ddigidol oddi mewn iddo. Roedd llyfr arall yn cynnwys 60 botwm ar y clawr, ac wrth wasgu'r botymau a lluniau anifeiliaid

(parhad ar y dudalen nesaf)


Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De 2023
**Tudalen 3**

O'r byd a'r betws
Heriau real AI – gwir neu gau?
**Tudalen 4**

Dirnadaeth a Dehongli
Fforwm Ffydd, Undeb Athrofa'r Bala 2023
**Tudalen 5**

*Gweithio drwy argyfwng i ailddanio gweinidogaeth i blant – yng Nghymru*
*(parhad o dudalen 1)*

arnynt roedd y llyfr yn gwneud sŵn yr anifail perthnasol. Llyfr arall ar gyfer y Nadolig fydd cyfrol o garolau i blant, gyda phiano'n cael ei bweru gan fatris wedi ei ludio ar glawr y llyfr.




Mewn oes lle na fydd llawer o blant yn clywed straeon Beiblaidd yn rheolaidd, mae llyfrau fel hyn, a fydd yn cael eu prynu gan rieni dros gyfnod y Nadolig, yn hollbwysig.

Gall pob un ohonom fod yn rhan o hyn, drwy brynu llyfrau i'w rhannu i blant, efallai i wyrion ac wyresau, neu orwyrion. Mae modd rhoi llyfrau i ysgolion lleol hefyd, neu i blant yn ein cymdogaeth. Dyma weithred syml y gall pawb ei gwneud, gan rannu newyddion da yn ein cymunedau.




O'r Ffair Lyfrau, daeth cyfle wedyn i fynychu cynhadledd trefnyddion gwaith plant Ewropeaidd yn Hwngari. Roedd 80 ohonom yno, i gyd yn wynebu'r un heriau, yn cael rhannu pryderon a gofidiau, ond wrth fod yng nghwmni criw oedd yn teimlo'n angerddol dros bwysigrwydd cenhadaeth i blant, fe droes y sgwrs yn un gynhyrfus yn fuan iawn, yn sôn am y cyfleoedd a'r posibiliadau.

Gweithio drwy argyfwng i ailddanio'r gwaith oedd y ffocws. Diolch am gyfle i annog ein gilydd, ac am gael ein hatgoffa o bwysigrwydd y gwaith hwn. Gobeithio bod yr 80 ohonom, wedi dychwelyd i'n gwledydd, nid gyda'r gair 'argyfwng' yn aros yn y cof, ond yr angerdd i 'aildanio' yn gyrru ein gwaith.

Ac i mi, bu'n brofiad cyffrous wrth wrando ac elwa o brofiadau eraill, a sylweddoli ein bod i gyd yn rhan o'r un gwaith. Dyma brofiad y gallwn ninnau elwa ohono yng Nghymru hefyd. Bydd llawer mewn eglwysi lleol wedi digalonni, ac efallai ddim yn gweld y gallan nhw wneud fawr ddim ar eu pennau eu hunain. Byddai cyfarfod yn lleol gydag eglwysi eraill o draddodiadau gwahanol yn gyfrwng gwych i'n hatgoffa bod yna eraill allan yna'n rhannu'r un weledigaeth â ni. Un flaenoriaeth i mi am y flwyddyn nesaf fydd trefnu nifer o gyfarfodydd mewn cylchoedd lleol i drafod pa waith sy'n digwydd yno'n barod, a pha weinidogaethau newydd y gellid eu datblygu.

Erbyn hyn mae 'na gyfoeth o adnoddau ar gael ar gyfer cynnal ysgolion Sul, clybiau plant ac ieuenctid, addoliad teuluol creadigol a gwaith ysgolion. Bu rhai'n cwestiynu gwerth datblygu adnoddau fel *Llan Llanast*, *Chwarae a Chredu* a *Roots*, yn wyneb y nifer bychan o ddefnyddwyr. Onid oes angen edrych ar hyn o gyfeiriad gwahanol, a meddwl sut gallwn ni gynyddu'r defnydd o'r adnoddau gwerthfawr hyn? Yr her i ni ar hyn o bryd yw defnyddio'r adnoddau hyn er mwyn cyfoethogi profiad plant yn ein gweithgaredd eglwysig. Mae angen adnoddau creadigol a chyfoes arnom o hyd, o wefannau sy'n cynnwys adnoddau digidol a chaneuon Cristnogol cyfoes i adnoddau lliwgar i'w rhoi yn nwylo ein plant.



Criw o blant yn mwynhau ar stondin yr Eglwysi yn Eisteddfod yr Urdd

Wedi dychwelyd o Hwngari, daeth yn amser gosod stondin yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri, a threulio wythnos yno'n cyfarfod cannoedd o blant ac arweinwyr, yn weinidogion, athrawon ysgol Sul ac athrawon ysgol. Braf oedd cael ein hatgoffa o chwilfrydedd ysbrydol y plant, gan dynnu sylw unwaith eto at bwysigrwydd cynnig cyfleoedd iddynt drafod y ffydd. Ond cafwyd nifer o sgyrsiau gan arweinwyr hefyd yn digalonni wrth adrodd nad oes gwaith plant yn eu cylch, a bod y plant wedi diflannu. Efallai eu bod yn anweledig, ond maent yn dal yno, a cheisiwyd annog pawb i feddwl yn greadigol am yr hyn sy'n bosib. Ac fel y bu i'r gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol ymuno â ni i fod ar faes Eisteddfod yr Urdd, efallai y gallwn ninnau hefyd fod yn 'halen a goleuni' wrth ymuno â gweithgareddau'r Urdd neu'r Ffermwyr Ifanc yn ein cymunedau lleol.




Y ddau gylchgrawn a gyhoeddir gan Roots bob deufis

Ychydig ddyddiau wedi dychwelyd o Lanymddyfri, roedd Llundain yn galw unwaith eto, y tro yma i gynhadledd 48 awr ar gyfer tîm cynhyrchu [Roots](), yn ysgrifenwyr a golygyddion, a ninnau fel rheolwyr. Mae Roots ar fin ailfrandio'i adnoddau wythnosol ar gyfer plant a phob oed, a chafwyd cyflwyniadau graenus gan y tîm golygyddol yn rhannu eu cynnwrf wrth baratoi i lansio ym mis Gorffennaf eleni. Gwariwyd swm sylweddol ar wefan newydd, a helaethu'r adnoddau yn y cylchgronau. Eto, roedd yn gynhyrfus bod ynghanol y bwrlwm hwn, a thystio i frwdfrydedd tîm ymroddedig o bobl sy'n paratoi adnoddau cyfoes a pherthnasol ar gyfer pob wythnos o'r flwyddyn ac sy'n addas ar gyfer y Sul a chyfarfodydd canol wythnos.

Mae dewis wythnosol o adnoddau Cymraeg ar gael gan Roots hefyd, gan gynnwys gweddïau, dwy daflen waith i blant a dewis o emynau. Gall Roots fod yn adnodd amhrisiadwy i'n hysbrydoli i greu gwasanaethau creadigol a pherthnasol i bob oed. Cofiaf rywun yn dweud wrthyf un tro fod yna wahaniaeth mawr rhwng yr hyn mae athrawon ysgol Sul yn chwilio amdano, a'r hyn sydd ei angen arnynt go iawn. Efallai y bydd rhai'n credu bod detholiad o daflenni gwaith syml yn ddigonol, ond yr hyn sydd ei 'angen' yw deunydd sy'n helpu i greu disgyblion a dilynwyr gydol oes i Iesu.

Wedi mis o grwydro, mae dau beth wedi dod yn gliriach yn fy meddwl. Mae gennym stori i'w rhannu a chenhadaeth i'w chyflawni, ac mae'r hyn sydd ei angen arnom i wneud hynny o ran adnoddau eisoes yn ein meddiant.

OND mae angen dybryd am weithwyr a gwirfoddolwyr i ailddanio'r gwaith yn lleol, ac i ddarganfod y ffyrdd gorau o gyflawni hynny.

'Meddai Iesu wrth ei ddisgyblion, "Mae'r cynhaeaf mor fawr, a'r gweithwyr mor brin! Felly, gofynnwch i Arglwydd y cynhaeaf anfon mwy o weithwyr i'w feysydd."' (Mathew 9:37; [beibl.net]())

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o *Cenn@d* byddwn yn rhannu erthygl a fydd yn cynnwys syniadau trafod er mwyn gwireddu hynny.

# Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De 2023

Wel! Dyna ddathliad bendithiol gawson ni yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth, yn Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, ar 18 Mai 2023. Roedd hi'n Ddydd Ewyllys Da i ni yng Nghymru, a dyma ni'n croesawu grŵp o ymwelwyr o India a ddaeth ar ymweliad Ewyllys Da atom ni!

Blaenoriaid o Eglwys Mawkhar, Shillong, oeddynt, gyda'r awydd i ddweud diolch i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am ddod â'r Efengyl atynt ac i ddiolch am y cydweithrediad sydd rhyngom ni erbyn hyn i weithio gyda'n gilydd ac i ledaenu Efengyl Iesu Grist dros y byd i gyd.

Ar ddiwrnod braf o haf cawsom ni groeso twymgalon yng Nghapel y Morfa, ac am y tro cyntaf ffilmiwyd y ddwy oedfa gan y Parch. Gwyn Rhydderch. Gobeithio bydd hyn yn ffordd o rannu ein gweithgareddau yn ehangach yn y dyfodol.

Llywyddwyd gwasanaeth y prynhawn gan Miss Eleri Davies, Llywydd Pwyllgor Sasiwn Chwiorydd y De. Cymerwyd at y defosiwn gan Mrs Rhian Wynne Jones a Miss Irene de Lloyd, a'r organydd oedd Mrs Mary Jones Morris.

Daeth Mr Cliff Williams, Llywydd Cymdeithasfa'r De, i'n cyfarch ni ac i roi croeso i'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Nan Powell-Davies, a'r ymwelwyr. Wrth gyflwyno ein cyfeillion o India, gofynnodd Nan i bob un ohonynt gyflwyno'u hunain, a sôn am eu cyfrifoldebau yn Mawkhar, ac yn ehangach yn y Synod. Canwyd yr emyn 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw' yn ystod y casgliad. Offrymwyd gweddi ar y casgliad gan y Parch. Carwyn Arthur.

Cafodd y Parch. Peter Thomas a Meryl, ei wraig, groeso cynnes i'n plith, cyn i ni ganu ei emyn, 'Yn gymaint i ti gofio un o'r rhain'.

Siaradodd y Parch. Mererid Mair am Ganolfan Gymunedol Noddfa yng Nghaernarfon, ac am ei gwaith yn y ganolfan a thu allan yn y gymuned, i estyn llaw i helpu pobl sydd mewn sefyllfaoedd anodd ac mor druenus o lwm. Mae'r pwysau arnom ni fel Cristnogion yn fawr iawn, ond dylen ni wynebu'r sialensau mewn ffordd bositif, gan ddibynnu ar yr Arglwydd i'n cario ni drwyddynt.

Defnyddiodd Mererid ddwy esiampl o'r ffordd yr oedd Iesu wedi codi statws merched pan nad oedd dim statws ganddynt o gwbwl. Estynnodd Iesu ddŵr bywiol i'r wraig o Samaria a chafodd ei bywyd ei drawsnewid. Rhuthrodd hi i ddweud wrth eraill i ddod i weld Iesu. Doedd Iesu ddim yn edrych ar yr hyn oedd hi, ond ar yr hyn y byddai hi'n gallu bod! Yr ail ferch oedd Mair Magdalen. Rhoddodd Iesu iddi'r fraint o fod y person cyntaf i'w weld ar ôl ei Atgyfodiad. Ei chyfrifoldeb wedyn oedd dweud wrth eraill fod Iesu'n fyw. Roedd Mair yn adnabod yr Arglwydd pan alwodd hi'n 'Mair'. Mae'n ein hadnabod bob un wrth ein henw. Rydym ni hefyd angen yr agosatrwydd at Iesu i'n cynnal i wneud ei waith.

Diolchwyd i Mererid yn gynnes iawn am ei neges o obaith gan y Llywydd, cyn iddi alw ar y Trysorydd, Mrs Molly Thomas, i drosglwyddo siec i'r Parch. Nan Powell-Davies, sef cyfanswm ein casgliad. Erbyn hyn roedd y casgliad wedi cyrraedd dros £7,000.

Cyflwynodd Mrs Sarah Morris ein thema newydd, "Myfi yw'r Wir Winwydden", a dangosodd i ni'r llyfr gydag adnoddau i'n helpu yn y gwaith. Siaradodd am lwyddiant ein hastudiaethau Beiblaidd hefyd ac anogodd ni i barhau yn ein gwaith dros yr Arglwydd. Offrymwyd y weddi i derfynu cyfarfod y prynhawn gan y Parch. Llunos Gordon,

Gwahoddwyd ni i de, ac fel arfer roedd gwledd o fwyd blasus wedi ei baratoi ar ein cyfer. Roedden ni'n gallu cymdeithasu â ffrindiau, hen a newydd, a chasglu ein llyfrau thema. Roedd ein dyled yn fawr i bob un a fu'n paratoi'r lluniaeth.



Y Parch. Mererid Mair a'r Parch. Nan Wyn Powell-Davies gydag ymwelwyr o Eglwys Mawkhar, Shillong, India

Am 5 o'r gloch daethom at ein gilydd unwaith eto, dan lywyddiaeth Mrs Elizabeth Jones, Bwlchgwynt. Arweiniwyd ni yn y defosiwn gan Miss Eirlys Morgan a Mrs Iola Alban, gan ddod â ni yn ôl i awyrgylch o addoliad. Dymuniad ein hymwelwyr oedd canu cân am yr Ysbryd Glân yn aros ynom ni a'n harwain yn wastad. Dyna beth oedd eu neges i ni. Boed i'r Arglwydd eu bendithio hwy a'u cynnal wrth iddynt ddychwelyd i Meghalaya.

Offrymwyd gweddi ar y casgliad gan y Parch. Ddr Watcyn James.

Cawsom ein herio'n syth gan Dr Arfon Jones, gyda'r sialens, "Beth ydym ni'n ei feddwl am y sefyllfa yn ein byd heddiw?" Rydym yn wynebu cymaint o her gydag eglwysi yn cau, oedran ein cynulleidfaoedd yn codi, a lleihad yn ein gwasanaethau a'n gweithgareddau. Ond mae'r Arglwydd yn dal gyda ni, er cyn lleied ydym ac er mor dywyll yw'r sefyllfa. Mae'n rhaid i ni wynebu'r 'her newydd' i fuddsoddi mwy o arian yn ein plant a'n hieuenctid. Mae'n rhaid i ni gyfathrebu mewn iaith maent yn ei deall – dyna beth oedd pwrpas Beibl.net.

Cyfeiriodd at Martha, chwaer Mair. Roedd ffydd go iawn gyda hi, fel ein chwiorydd ni heddiw, ond cyfeiriodd Iesu at yr 'un peth' oedd ei eisiau arni hi, a'r 'un peth' hwnnw sy'n bwysig i ni hefyd heddiw – perthynas agos gyda Iesu. Dywedodd Arfon fod Cristnogaeth yn tyfu'n gyflymach yn Iran heddiw nag yn unrhyw wlad arall yn y byd, ac i ddychmygu'r heriau maent yn eu hwynebu yno.

Terfynodd ei neges drwy ein hannog ni i ymgysegru o'r newydd i fod yn genhadon ffyddlon dros Iesu Grist, er gwaethaf y sialensau yn ein byd heddiw. Arweiniwyd ni mewn gweddi i ofyn am nerth yr Ysbryd Glân i'n cynorthwyo yn ein gwaith.

Diolchodd y Llywydd i Arfon am ei neges heriol ac am ei waith, sy'n parhau ymhlith plant a phobl ifanc heddiw.

Cawsom ein croesawu'n gynnes iawn gan Mrs Elizabeth Jackson i Sasiwn y flwyddyn nesaf yng Nghapel Soar, Pontyberem, Henaduriaeth Myrddin, ar 17 Mai 2024. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddiwrnod bendithiol arall.

Ar ôl i'r Llywydd gyflwyno'r diolchiadau, daeth y Sasiwn i ben gyda gweddi a offrymwyd gan y Parch. Eifion Roberts, Gweinidog Capel y Morfa.

Hoffwn roi gair personol o ddiolch i bawb a fu'n gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant Sasiwn bendithiol er clod i'r Arglwydd Iesu Grist. Dyna oedd ein braint! Felly, diolch o galon i bob un ohonoch.

*Bethan Richards*
*Ysgrifennydd*

Gellir gwylio recordiad o'r oedfaon ar sianel YouTube Eglwys Bresbyteraidd Cymru: https://www.youtube.com/watch?v=_RuUg1WqsDI&ab_channel=EBCPCW



Nifer o'r rhai oedd yn bresennol yn y Sasiwn gyda'r ymwelwyr Ewyllys Da o India

# O'r byd a'r betws

## Heriau real AI – gwir neu gau?



Llun: Adobe Stock

Chwarter canrif yn ôl, prin fod gan fawr neb ohonom ffôn digidol, na'r syniad lleiaf am y cyfarpar sy'n rhan o'n bywyd dyddiol bellach. Prin y byddem wedi sylweddoli sut byddai cyfrifiaduron yn datblygu, nid yn unig i ni fel unigolion, ond i holl rychwant diwydiant a masnach. Digwyddodd y datblygiadau o fewn cenhedlaeth, fel na allwn rag-weld beth fydd y datblygiad digidol nesaf a'i gyfraniad i'r ddynoliaeth.

### Dyfais

Ym mhob diwydiant, mae'r rhyfeddodau digidol wedi brasgamu ymlaen, o wared chwyn yn y cae ŷd i ysgrifennu traethodau cymhleth, o ddatrys cymhlethdodau genynnol gwyddoniaeth i ddyfeisio ffyrdd o greu ynni na fydd yn dibynnu ar ddeunydd craidd gwenwynig fel olew.

Cyhoeddwyd ddechrau mis Mehefin y bydd chwyldro yn y ddarpariaeth feddygol wrth drafod sawl math o gancr, a hynny o fewn pum mlynedd. Mae'r hyn oedd yn chwyldroadol newydd y llynedd yn hen hanes erbyn y flwyddyn ddilynol.

### Achos pryder?

Bu llawer un yn poeni, serch hynny, beth oedd yr ochr arall i'r datblygiadau digidol. Bu damwain trên erchyll yn India ddechrau'r mis, gyda channoedd wedi marw, a'r signalau digidol yn cael y bai. Erbyn y gwêl yr erthygl hon olau dydd, byddwn yn sylweddoli fod negeseuon WhatsApp prifweinidog yn agor y drws i bob math o bryderon newydd. A daeth y term AI (*Artificial Intelligence*) i olygu llawer mwy na'r hyn roedd amaethwyr yn ei archebu 75 mlynedd yn ôl! Daethom i arfer â'r ffordd y bu'r cyn-Arlywydd Trump yn cyhuddo popeth nad oedd yn ei glodfori ef o fod yn 'fake news'.

### Heriau pellgyrhaeddol

Dibynna Deallusrwydd Artiffisial (AI) ar yr hyn fydd rhywun yn ei fwydo i'w grombil, a bydd ganddo'r modd i achosi diweithdra, gan arwain at fwy o dyndra sosio-economaidd nag sydd ar hyn o bryd. Bydd y posibilrwydd o greu llawer o gam-wybodaeth ym mhob maes yn real, a gall y dechnoleg greu mwy o arswyd ym meysydd economeg a diogelwch. Craidd y peryglon yw analluedd peiriannau i garu neu arfer cydwybod. Ni fydd cysyniad o gyfiawnder diragfarn mewn peiriant, na dychymyg creadigol chwaith.

### Dychymyg, dyhead a rheoleiddio

Nid ystadegau yw pobl, ond unigolion amherffaith gyda'u dychymyg a'u dyheadau. Nid clystyrau dideimlad yw cymdogaethau a chenhedloedd, ond pobl ac iddynt dreftadaeth ac etifeddiaeth. Heb os, bydd angen cyd-ddealltwriaeth ryngwladol i reoleiddio'r dechnoleg newydd. Ac wrth ddiolch am y manteision a ddaw yn ei sgil, gocheler y llywodraethau rhag ymddiried dyfodol y byd i beiriannau.

Yn rhyfedd, bydd y ddwy lythyren AI yn rhan o iaith pob Cristion, gan y bydd enw'r Arglwydd Iesu yn rhan o bob cyffes, deisyfiad a chredo. Yn y Duwdod mae cariad, cyfiawnder a chymdeithas yng nghanol pob gweithred. Mae'r bregeth Gristnogol yn gwbl amlwg, yn arbennig yn y Gymraeg. Nid sgript i'w lawrlwytho oddi ar sgrin gyfrifiadurol yw pregeth, ond angerdd ac argyhoeddiad y sawl a fyfyriodd ac a ymddiriedodd yn Nuw i oleuo ac arwain y pregethwr i ennyn ffydd ac i gyfeirio at ffordd sydd wedi ymddangos ym mherson y Drindod.

*Denzil John*

# Capel Newydd, Llanddarog

## Derbyn Aelodau Newydd




Cynhaliwyd oedfa gymun hyfryd nos Sul, 21 Mai, yng Nghapel Newydd o dan arweiniad y Parch. Emyr Williams pan welwyd derbyn pedwar aelod newydd, sef Mari Williams, Caryl Jones, Saran Richards ac Elan Richards. Yn ferched ifanc, roedd y pedair yn aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul yng Nghapel Newydd, ac mae'n hyfryd nawr eu croesawu yn aelodau cyflawn yn y capel. Braf hefyd oedd clywed cyfraniadau gwerthfawr plant ac ieuenctid y capel yn ystod yr oedfa.



Y Parch. Emyr Williams gyda'r aelodau newydd, o'r chwith i'r dde: Saran Richards, Elan Richards, Mari Williams a Caryl Jones

# Dirnadaeth a Dehongli

## Fforwm Ffydd, Undeb Athrofa'r Bala 2023



Y Parch. Megan Williams, yr Athro Eryl Wynn Davies, Dr Gareth Evans-Jones, a'r Parch. Eric Jones

Yr angen am ddirnadaeth wrth ddehongli'r Gair oedd prif thema'r Fforwm Ffydd yn Llandudno eleni, a hynny wrth inni ystyried ein gorffennol, pwyso a mesur ein presennol ac edrych ymlaen at ein dyfodol hefyd.

Cynhaliwyd y fforwm yn Eglwys Unedig Seilo ar 16 Mai, gyda chyfraniadau diddorol eithriadol gan Dr Gareth Evans-Jones, Prifysgol Bangor, a'r Athro Eryl Wynn Davies.

**Y gorffennol**
O ran y gorffennol, cafwyd golwg yn y lle cyntaf ar sut y cafodd y Beibl ei ddefnyddio gan Gymry America yn ystod y drafodaeth fawr ar gaethwasiaeth yno rhwng 1838 ac 1868.

Yn ei ddarlith 'Y Beibl o'n Tu' (yn seiliedig ar ei draethawd PhD ar y pwnc), esboniodd Gareth Evans-Jones sut yr oedd angen deall pa mor ganolog oedd y Beibl yn yr holl brofiad Cymreig yn yr Unol Daleithiau.

Anghydffurfwyr oedd y mwyafrif helaeth o Gymry a ymfudodd i America am wahanol resymau yn y blynyddoedd yn arwain at yr hyn a ddisgrifiodd fel 'argyfwng moesol cyntaf America'. Roedd hynny i'w weld yn y 600 o gapeli Cymraeg a godwyd yno a'r chwe chyfnodolyn Cymraeg a gyhoeddwyd yno, megis *Y Cyfaill o'r Hen Wlad* (1838), *Y Cenhadwr Americanaidd* (1840), a'r *Seren Orllewinol* (1848).

Yng ngeiriau cofiadwy'r Arlywydd Abraham Lincoln wedi i'r holl anghytuno ynghylch caethwasiaeth arwain at ryfel cartref brwnt a dinistriol rhwng 1861 a 1865: 'Both sides prayed to the same God and read the same Bible'. Ac fe ellid cymhwyso hynny i'r meddylfryd Cymreig at gaethwasiaeth hefyd i raddau.

Er mai yn erbyn caethwasiaeth yr oedd y mwyafrif o Gymry America, roedd yna leiafrif sylweddol hefyd o blaid cadw'r drefn, gyda'r naill ochr a'r llall yn pwyso ar y Beibl i gyfiawnhau eu safbwyntiau.

**Melltith Shem**
Seiliwyd y ddadl Feiblaidd o blaid caethwasiaeth ar Genesis 9:25 a 'mellith Shem', a roddwyd ar Canaan, un o wyrion Noa. Yna, tybid bod y felltith honno wedyn wedi ei hetifeddu gan ei holl ddisgynyddion, oedd yn cynrychioli'r hil ddu yn y ddynoliaeth, a'u tynghedu i fod yn 'weision' i eraill, a hynny gan mai 'du' yw ystyr y gair Shem yn yr Hebraeg.

Roedd lladmeryddion y safbwynt hwn yn cynnwys Lewis Lewis, Trenton, a'r Parch. R. Watson, awdur esboniad Beiblaidd yn 1824.

**Hil Gomer**
Ond ymateb gwahanol iawn a welwyd gan y bardd John Edwards, 'Eos Glantwrch', oedd yn dadlau bod dyletswydd ar 'hil Gomer' (un enw a roddodd y Cymry ar eu hunain) i amddiffyn eu cefndryd, gan ddweud yn eofn: 'na foed i un Cymro blygu i'r de'.

Wrth edrych ar hyn o bersbectif heddiw, mae'r ffaith fod y ddadl Feiblaidd hon wedi ei seilio ar un adnod yn Genesis i bob pwrpas yn ymddangos bron yn annealladwy. Ond wedyn, fel y dywedodd yr awdur L. P Hartley: 'The past is another country. They do things differently there.'

Ond wedyn, tybed nad oes yna ystyr ddyfnach eto i'w darganfod yn hyn oll y tu hwnt i bob hanes, pob dadl a phob dehongliad hefyd?

**Cod**
Gwyddom erbyn hyn fod y Torah, pum llyfr cyntaf yr Hen Destament, wedi ei ysgrifennu mewn cod arbennig iawn, ac fe gydnabuwyd hynny gan rai gwyddonwyr yn lled ddiweddar.

Mae egnïon nerthol iawn wedi eu cynnwys, gyda phob llythyren, pob gair a phob rhif cysylltiedig yn yr iaith Hebraeg, sy'n gweithio'u hunain allan drwy'r gorffennol i'r presennol ac i'r dyfodol yn ein bywydau ni ac ym mywyd y greadigaeth hefyd.

Mae'n ddiddorol iawn nodi hefyd y tebygrwydd rhwng yr Hebraeg a'r Gymraeg hithau, a'r ffaith fod ganddynt tua'r un nifer o eiriau (tua 90,000). Mae'r ddwy yn ieithoedd sy'n gorfod bod yn gynnil, awgrymog ac amlweddog (yn llawer mwy felly na'r Saesneg, er enghraifft, a'i 600,000 o eiriau).

**Anawsterau**
Edrych ar y gorffennol hefyd a wnaeth yr Athro Eryl Wynn Davies yn ei ddarlith yntau, 'Anawsterau yn y Beibl', wrth iddo drafod rhai o'r adrannau problemus sydd i'w gweld yn yr Hen Destament. Cyfeiriodd yn arbennig at y disgrifiadau o drais a'r ymhyfrydu mewn trais sy'n ymddangos yno, hyd yn oed o enau Duw ei hun.

Esboniodd fod hyn wedi ei egluro'n draddodiadol mewn dwy ffordd, sef bod moesoldeb yn esblygu dros amser a bod dewis a dethol yn gorfod digwydd gan gydnabod nad yw'r testun i gyd ar yr un gwastad.

Ond dywedodd fod problemau ynghlwm â'r naill safbwynt a'r llall, a bod yn rhaid inni fel credinwyr wynebu'r anawsterau sydd ynghlwm wrth y testun yn onest heb guddio rhagddynt.

**Testun mewn gwewyr**
Roedd hyn oll yn f'atgoffa o syniad René Girard, a ddisgrifiodd yr Hen Destament fel 'a text in travail'. Ei awgrym yw fod y testun bron yn brwydro yn erbyn ei hun weithiau, gyda phatrwm o gamu ymlaen a chamu 'nôl cyson ynddo o ran yr ymddygiad a welir ynddo gan ddynion, a chan Duw ei hun hefyd ar adegau. Bron na ellid dadlau bod y testun fel petai'n ddrych treiddgar i'n meddyliau ni ein hunain sydd hefyd yn gallu bod megis maes y gad yn ein bywydau unigol ninnau ar adegau.

Diolch yn fawr i Gareth ac Eryl am eu cyflwyniadau ac am ennyn mwy fyth o gywreinrwydd ynom oll am ddirnad y Gair yn well.

*(I'w barhau)*
*Aled Gwyn Jôb*

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 28 Eiriolaeth Abraham (Rhan 2)

### Darllen: Genesis 18:22–33

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 108)

Wedi edrych yr wythnos diwethaf ar ymdrech Abraham i geisio deall gwaith Duw, yn arbennig ei waith yn diogelu cyfiawnder, yr wythnos hon rydym am edrych ar ei eiriolaeth dros y dinasoedd hyn. Mae eisoes wedi cael gwybod fod Duw am ymweld â Sodom a Gomorra, ac ar ddechrau adnod 23 cawn y darlun cyfarwydd ohono'n nesáu at Dduw. Mae yna ymwybyddiaeth real o'i annheilyngdod yn dod i'r fath le, 'Dyma fi wedi beiddio llefaru wrth yr ARGLWYDD, a minnau'n ddim ond llwch a lludw' (adn. 27). Yn ddiweddarach yn yr Hen Destament, cawn air Duw drwy Jeremeia yn ein hatgoffa mai gwahoddiad Duw yw sail ein hyder i ddod, '"Paraf iddo nesáu, ac fe ddaw ataf; canys pwy, o'i ewyllys ei hun, a faidd ddod ataf?" medd yr ARGLWYDD' (Jeremeia 30:21). Ond, wedi cydnabod hyn, mae Abraham yn dod, a braidd yn dweud nad yw'n dymuno gweld dinistr y dinasoedd, ac yntau'n dweud dim. Mae am nesáu felly gyda hyder ffydd, a hynny at yr Un sy'n datguddio'i hun fel gwrandäwr gweddi.

Diddorol nodi mai hon yw'r weddi gyntaf sy'n cael ei chofnodi yn y Beibl, gweddi i arbed Sodom! Nid bod Abraham eisiau byw yn y fath le, ond, fel yng ngweddill y Beibl, nid yw ein golwg ar bechod yr un fath â'n golwg ar bechaduriaid. Nid yw Duw yn ymhyfrydu ym marwolaeth yr annuwiol, ac ni ddylai ei bobl wneud hynny chwaith. Mae'n ddiddorol sylwi sut mae Abraham yn symud yn ei weddi o ofyn am waredigaeth y cyfiawn yn adnod 23 i weddi am arbed y lle cyfan oherwydd presenoldeb y cyfiawn. Afraid dweud y dylem fod yn bobl sy'n gweddïo nid yn unig drosom ein hunain ond dros eraill, a ninnau'n aelodau o'r un teulu, y teulu dynol cyfan.

Gyda golwg ar weddill y weddi, bydd raid crynhoi fy sylwadau dan bum pennawd.

Yn gyntaf, mae Abraham yn amlygu ffydd ryfeddol wrth weddïo. Mae'n credu yng nghyfiawnder Duw, yr un na fydd yn difa'r cyfiawn gyda'r anghyfiawn. Yn y byd mae pawb yn gymysg: ymysg y gorau mae rhai drwg, ymysg y drygionus mae rhai gwell, ac yn Sodom mae Lot! Er bod y cyfiawn yn dioddef gyda'r anghyfiawn, eto nid yw eu rhan fel y rhai sydd wedi gwrthod credu. Fel y sylwyd yr wythnos diwethaf, fe weinydda Barnwr yr holl ddaear farn gyfiawn.

Yn ail, rhaid sylwi ar ostyngeiddrwydd Abraham yn y gwaith yma o weddïo. Yr oedd nid yn unig yn ymwybodol iawn o'i gyflwr ei hun (adn. 27), ond yr oedd yn gwybod hefyd mai Duw'r gogoniant oedd Duw. Mae'r fynedfa sydd inni yn destun rhyfeddod tragwyddol. fel yn hanes Dafydd: '"Pwy wyf fi, O Arglwydd DDUW, a phwy yw fy nheulu, dy fod wedi dod â mi hyd yma?"' (2 Samuel 7:18). Wedi dod, mae yna ymwybyddiaeth barhaus o'r gofal i sicrhau nad yw'r hyder yn troi'n hyfdra, ac fe gawn Abraham droeon yn pledio am drugaredd wrth eiriol, 'Yna dywedodd, "Na ddigied yr ARGLWYDD os llefaraf"' (adn. 30). Gweler hefyd adnodau 31 a 32.

Yn drydydd, cawn Abraham yn cymryd agwedd obeithiol iawn tuag at y sefyllfa yn y dinasoedd. Braidd nad yw'n gweddïo, gan ein hatgoffa ni ei bod yn well gwyro tuag at feddwl yn rhy dda o sefyllfa nag fel arall. Felly hefyd cawn ein dysgu i ddefnyddio pob cyfle a gawn ger yr orsedd i geisio trugaredd a gras yn achos y sefyllfaoedd mwyaf anobeithiol. Rhaid cydnabod hefyd yr hyder sydd yn ei weddïau. Pan oeddem yn byw yn y gogledd roedd 'na sôn am bobl 'powld', ac mae Abraham yn bowld gyda Duw mewn rhyw ystyr. Mae'n setlo ar rif, ac wedi llwyddo yn parhau i leihau'r rhif hwnnw. Wrth i'r Arglwydd ganiatáu, mae yntau'n pledio'r caniatâd hwnnw i ofyn mwy eto fyth.

Yn bedwerydd, rhaid imi gyfeirio at lwyddiant Abraham mewn gweddi, nid am fod hyn yn syndod ond am fod y llwyddiant mor amlwg. Daeth ei ŵyr Jacob i wybod yn dda am bwysigrwydd a bendithion ymgodymu â Duw (Genesis 32), ac felly Abraham yma. Da cofio'n barhaus mai ewyllys Duw yw bendithio; ei ewyllys yw ateb gweddi; mae'n araf i ddigio ac yn helaeth o ran ei drugaredd. Mae Abraham yn gofyn ac yn derbyn, yn ceisio ac yn cael, yn curo a'r drws yn cael ei agor iddo. Yn wir, nid yw'n peidio caniatáu tra mae Abraham yn parhau i ofyn.

Yn olaf, sylwch ar y clo yn adnod 33. Mae'r Arglwydd yn symud wedi i Abraham orffen gweddïo, wedi iddo orffen dod â'r sefyllfa o flaen Duw. Un sy'n awyddus i wrando gweddi ac yn abl i ateb gweddi yw'r Arglwydd, ac nid yw'n blino ar gri ei blant: 'Nid aeth llaw'r ARGLWYDD yn rhy fyr i achub, na'i glust yn rhy drwm i glywed' (Eseia 59:1). Cymaint mwy yw'r gwirionedd nad yw'n blino ar eiriolaeth ei Fab wrth iddo ddadlau ei fywyd a'i farwolaeth dros ei bobl. I'r awdur at yr Hebreaid, mae gwaith Iesu fel ein Harchoffeiriad yn y nefoedd yn arwain at y gyffes: 'Dyna pam y mae ef hefyd yn gallu achub hyd yr eithaf y rhai sy'n agosáu at Dduw trwyddo ef, gan ei fod yn fyw bob amser i eiriol drostynt' (Hebreaid 7:25).

1. Sut fyddech chi'n diffinio'r gwahaniaeth rhwng hyder a hyfdra o ran ein perthynas â Duw yn Iesu Grist?
2. Meddyliwch am enghreifftiau lle rydych chi wedi tybio'r gwaethaf am sefyllfa neu wedi tybio'r gorau am sefyllfa. O ystyried eiriolaeth Abraham a derbyn bod angen inni wybod cymaint â phosibl am sefyllfa neu berson, beth yw peryglon meddwl yn rhy dda neu'n rhy ddrwg?
3. Pryd y bu ichi ymgodymu â Duw ddiwethaf? Fe gofiwch i Jacob gael ei glwyfo yn y gwaith (Genesis 32:31), beth oedd y canlyniadau i chi?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 18 Mehefin, am 7.30yh**
Bydd Nia Roberts yn ymweld â Llangrannog i ddathlu bywyd a gwaith arloesol Sarah Jane Rees, neu Cranogwen. Cawn ymuno â'r orymdaith i ddadorchuddio cofeb newydd iddi yn ei phentref brodorol a mwynhau canu mawl brwd o Gapel y Wig. Ymhlith y gwesteion y mae Llywydd y Senedd, Elin Jones.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 18 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Teulu: 2 – Euros Rhys yn cyflwyno'r ail raglen mewn cyfres fer am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth
**Sul, 18 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Elin Owen a chriw pererindod Cadfan, Bangor

# Cymanfa Ganu Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan ddydd Sul, 21 Mai, a hynny am y tro cyntaf ers 2019. Y lleoliad eleni oedd Bethel, Cwmpedol, a da oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd. Llywyddwyd yn ddeheuig gan Llinos Jones o'r Noddfa, a chroesawodd bawb yn gynnes iawn. Yr arweinydd oedd Emlyn Davies o Lanybydder a'r organydd oedd Elfyn Davies, Bethel, Cwmpedol. Er mai criw bach o blant oedd yn bresennol, roedd pob un ar ei orau a'u cyfraniad yn un i'w drysori. Cyhoeddwyd yr emynau gan Hari, Lynwen, Esther, Nansi a Tryfan o Ysgol Sul Noddfa a Cai o Fethel, Silian.

Daliodd Llinos sylw pob plentyn wrth gyflwyno'i neges mewn ffordd syml ac effeithiol iawn gan bwysleisio bod Iesu Grist yn caru pawb a'n bod i gyd yn bwysig yn ei olwg ef. Roedd ymateb y plant i'w chwestiynau yn wych, ac ambell un yn codi gwên.

Pleser oedd gwrando ar eitem hyfryd gan aelodau Ysgol Sul Noddfa, gyda Hari yn canu'r penillion, a hefyd ddatganiad swynol iawn o'r emyn 'Meddwl am Fyd' gan Trystan Bryn, eto o'r Noddfa.

Derbyniodd yr oedolion hefyd ganmoliaeth uchel gan yr arweinydd, â phawb yn ymateb yn ardderchog i'w gyfarwyddiadau. Mae gan Emlyn y ddawn i arwain mewn ffordd mor gartrefol a di-ffws, a chael y gorau allan o'r cantorion.

Ar ddiwedd y Gymanfa talodd y Llywydd ddiolch haeddiannol i Emlyn am ei arweiniad hwyliog, i Elfyn am ei wasanaeth wrth yr organ ac i Janet am baratoi'r plant yn drwyadl a hefyd am ei dyfalbarhad yn parhau i gynnal yr ysgol Sul yn Noddfa, er gwaethaf yr anawsterau sy'n codi. Diolchodd hefyd i swyddogion ac aelodau Bethel am eu croeso ac am baratoi lluniaeth, i swyddogion y Gymanfa am eu trefniadau ac yn olaf, ond nid y lleiaf, i'r cantorion i gyd ac yn arbennig i'r rhai o'r gwahanol eglwysi am eu cefnogaeth. Datganodd Emlyn ei werthfawrogiad cynnes yntau i'r plant a'r oedolion am eu canu bendigedig.

I ddiweddu prynhawn pleserus dros ben, braf oedd cymdeithasu o amgylch y byrddau yn y festri wrth gyfranogi o'r te ardderchog.

Bu'r Gymanfa yn llwyddiant, a thystiai pawb mai da oedd cael dod ynghyd i ganu mawl i Dduw yn dilyn toriad o bedair blynedd. Roedd y tywydd godidog yn goron ar y cyfan.

*Janet Evans*

## Medalau Gee 2023

**Cofiwch mai'r dyddiad olaf**
**i dderbyn enwebiadau ar gyfer 2023 yw**
**30 MEHEFIN**

Manylion llawn a ffurflenni cais ar gael o wefan:
www.ysgolsul.com

## CYFLE CYFFROUS I WEINIDOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

**Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd**
**Cynllun EFE**
**(3 diwrnod yr wythnos)**

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill?

Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?

Mae Cynllun EFE yn chwilio am berson brwdfrydig i arwain a datblygu'r gwaith o gyflwyno'r Efengyl trwy gydweithio â chapeli, eglwysi ac ysgolion yn y pentrefi rhwng yr Wyddfa a Chaernarfon.

Am fanylion llawnach am y swydd a ffurflen gais, cysylltwch â John Roberts ar johntyhen@aol.com – neu ffoniwch (01286) 650450.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Gorffennaf 2023



# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Yr amhosib yn bosib

**Emyn 598 'Ysbryd y gorfoledd'**

**Darllen – Mathew 9:35–8**

**Gweddi**

Arglwydd Iesu Grist, yn nyddiau dy ymgnawdoliad ymwelaist â phentrefi dy wlad, a chyhoeddi efengyl dy deyrnasiad mewn adeiladau crefyddol, yng nghefn gwlad, wrth deithio, mewn cartrefi wrth orffwyso. Tyrd atom ninnau heddiw; tyrd at bobl flinderus a diymadferth; tyrd i fod yn fugail da i'n porthi a'n harwain. Dysg ninnau hefyd beth yw ystyr bod gyda thi, dysgu byw ar dy dosturi di, cael ein hanfon gennyt ti a bod yn weithwyr yn dy gynhaeaf di. Crea yn ein gwlad gynulleidfaoedd sy'n croesawu dy ymweliad, sy'n derbyn dy deyrnasiad, ac sy'n byw fel deiliaid dy deyrnas. Tyrd, Ysbryd Glân, a gogonedda'r Tad yn ein plith. Mae'r cynhaeaf yn aeddfed; anfon weithwyr i'r cynhaeaf yn ein dydd. Amen.

**Darllen – Salm 116:1,2, 9–16**

**Gweddi**

Arglwydd, fe'th addolwn di ac fe'th garwn di. Rwyt yn wrandäwr ein gweddïau – hyd yn oed pan ydym fel plant bach blinedig sydd ddim yn siŵr iawn am beth rydym yn gofyn. Diolchwn i ti, Dad nefol, dy fod yn ein caru ac yn hoffi clywed ein lleisiau, a'th fod yn llawenhau yn ein hymdrechion i ynganu geiriau a syniadau sydd mewn gwirionedd y tu hwnt i'n gallu meidrol i'w mynegi. Diolch am haelioni dy ras. Diolch am estyn 'cwpan iachawdwriaeth'. A diolchwn i ti mai arwydd rhyfeddaf ein diolchgarwch yw ein bod yn derbyn dy iachawdwriaeth drwy Iesu Grist. Caniatâ i ninnau rodio'n ffyddlon ger dy fron, dy wasanaethu'n ffyddlon ar hyd ein hoes, ac ar ddiwedd ein bywyd caniatâ i ninnau dderbyn trysor dy drugaredd. A heddiw, rho i ni galonnau llawen i'th wasanaethu hyd nes y daw'r awr y bydd ein gwaith a'n gorffwys bellach wedi mynd yn un. Amen.

**Emyn 114 'Rhagluniaeth fawr y nef'**

**Darllen – Genesis 18:1–12; 21:1–7**

Cenhadaeth Duw fel prif wrthrych 'stori'r Beibl' a'i fwriad i fendithio'r byd fydd yn mynd â'n sylw yn ystod yr wythnosau nesaf. Ffocws misiolegol felly fydd i'n myfyrdod.

Cofiwn o'r wythnos diwethaf mai bwriad yr addewid a roddwyd i Abraham (Genesis 12:2) oedd y byddai ei alwad, ei ufudd-dod drwy ffydd, yn dwyn bendith i'r holl fyd drwy ei ddisgynyddion a thrwy un disgynnydd neilltuol, sef 'had' Abraham, Iesu Grist. Ac mae'r addewidion amdano a'r amcan o gyflawni bwriadau grasol Duw drwy Iesu Grist yn creu chwerthin – weithiau chwerthiniad o wawd, weithiau o lawenydd, weithiau o ryfeddod!

### Chwerthin Abraham – bendith annhebygol

Deallodd Abraham ar ddechrau ei gerddediad gyda'r Arglwydd mai ymyrraeth yr Arglwydd yn ei fywyd a roddodd unrhyw ystyr i'w ymadawiad o'i famwlad, ei gefnu ar eilunod a duwiau ei gyndadau, ar ei grwydro fel 'estron' yng ngwlad yr addewid. Gan gefnu ar Haran, dyheai am 'ddinas ac iddi sylfeini, a Duw yn bensaer ac yn adeiladydd iddi' (Hebreaid 11:10). Deallodd hefyd fod a wnelo ei 'alwad' neilltuol ef â bendith a fyddai'n ymestyn i'r holl fyd.

Prin y medrai ddychmygu sut y cyflawnid yr addewid na sut y deuai Abram (tad dyrchafedig) i fod yn Abraham (tad tyrfa luosog).

A phwy ohonom na fyddai'n cydymdeimlo ag awydd Abraham i weld yr addewid yn cael ei gyflawni? Onid oedd eisoes yn 75 mlwydd oed pan adawodd Haran? Yn ôl trefn naturiol pethau, doedd amser (o bersbectif dynol) ddim o'i blaid!

Ac yntau'n ddiamynedd, aeth Abraham ati i geisio sicrhau cyflawniad yr addewid gan ddilyn arfer diwylliannol ei ddydd. Ni fyddai wedi bod yn beth anghyffredin i deulu heb blant brynu caethwas gyda'r bwriad o'i fabwysiadu a'i osod yn etifedd. Dyna, mae'n bur debyg, fyddai wedi bod ym meddwl Abraham wrth iddo osod Eleasar o Ddamascus yn etifedd iddo. Daeth yn glir, fodd bynnag, fod gan yr Arglwydd amcanion amgenach. Nid Eleasar fyddai'r etifedd, ond disgynnydd 'o'th gnawd dy hun' fyddai blaenffrwyth disgynyddion mor niferus â'r sêr (Genesis 15:1–6).

Awgrymodd Sarai, oedd hefyd yn oedrannus, ffordd i Abraham sicrhau etifedd o'i gorff ei hun. Gallent 'fenthyg croth' Hagar, morwyn o'r Aifft, er mwyn geni plentyn i'r teulu. Ymhen y rhawd ganwyd Ismael i'r teulu (Genesis 16), ond er gwaethaf llawenydd genedigaeth plentyn bach, daeth tensiwn a chwerwedd yn rhan o berthynas Sarai a Hagar.

Pan oedd Abraham yn 99 mlwydd oed, daeth gair yr Arglwydd a'i addewid ato drachefn. Byddai'n dad i lu o genhedloedd a byddai'r Arglwydd yn Dduw i'w ddisgynyddion. Arwydd o'r ymrwymiad oedd yr enwaedu ar bob mab. Er yr addewid y byddai Sara yn fam i genhedloedd, ni fedrai Abraham dderbyn addewid o'r fath yn ddigwestiwn. Naill ai mewn ansicrwydd anghrediniol (*sut gall y fath beth ddigwydd?*) neu mewn rhyfeddod (sut gallai'r *addewid* gael ei gyflawni mewn pobl mor oedrannus?), 'chwarddodd ynddo'i hun a dweud "A enir plentyn i ŵr canmlwydd oed? A fydd Sara'n geni plentyn yn naw deg oed?"' (Genesis 17:17)

### Chwerthin Sara – bendith amhosib

Yn awr, wrth dderwen More ymddangosodd yr Arglwydd mewn trindod theoffanig. Wrth groesawu'r ymwelwyr, derbyniodd Abraham a Sara addewid y byddai mab yn cael ei eni iddynt o fewn y flwyddyn. Y tro hwn, Sara oedd yr un a chwarddodd. Beth bynnag oedd y rheswm, ni allai gredu ei chlustiau. Wedi'r cyfan roedd 'mewn gwth o oedran, ac roedd arfer gwragedd wedi peidio' iddi (18:11–12). Efallai iddi gael ei synnu gan ryfeddod fod y plentyn y bu'n dyheu amdano ar hyd ei hoes ar fin dod yn realiti annisgwyl. Pwy ohonom na fyddai'n amheus y medrai'r fath air gael ei gyflawni?

### Geni Isaac – bendith sicr

Er i ddiffyg ymddiriedaeth Abraham arwain at gynllunio byrbwyll a siom, ac er i Sara hithau 'chwerthin' mewn anghrediniaeth a gobaith, ymhen y rhawd ganwyd llawenydd iddynt. Daeth 'Chwerthin' i'r byd dryslyd hwn drwy eni Isaac.

Nid trwy gyflawni disgwyliad naturiol neu drwy allu naturiol y byddai addewid yr Arglwydd i ddwyn bendith i'r holl fyd yn cael ei gyflawni. Trwy addewid yr Arglwydd a thrwy ei allu ef yn unig y sicrhawyd ceidwad i'r colledig a meddyg i'r holl fyd.

**Gweddi**

Arglwydd, maddau i ni'r anghrediniaeth sydd ynom, yr ysbryd o wawd, y chwerthiniad sinigaidd sydd mor barod i'n caethiwo. Arglwydd Iesu Grist, rho i ninnau weld o'r newydd mai ti dy hun yw cyflawniad dy addewid. Cyflawna dy addewidion drwy'r Ysbryd Glân. Amen.

**Emyn 768 'Myfi'r pechadur pennaf'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru | CennadCymru | @CennadCymru